Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tremeirchion

Tremeirchion
Llanelwy

Sir Ddinbych
LL17 0UN

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Tremeirchion

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tremeirchion |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol sydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 75 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 57 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 2.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 10.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 61.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 29/01/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Tremeirchion yn gymuned hapus a chyfeillgar sy’n canolbwyntio’n gadarn ar les a datblygiad disgyblion a staff. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu difyr mewn amgylchedd dysgu gofalgar a chynhwysol. Mae ymagwedd y pennaeth at feithrin agweddau dysgu cadarnhaol ac ymddygiad rhagorol pob disgybl yn gryfder. Mae’r weledigaeth synhwyrol hon, sy’n cynnwys cyfraniadau o’r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella’r ysgol yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n ddeallus i sicrhau darpariaeth fuddiol. Maent yn dîm o staff cydwybodol sy’n canolbwyntio ar ddatblygu deilliannau disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio’n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda.

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn addas i ddysgu disgyblion ac mae adborth athrawon i ddisgyblion wella’u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn arferion effeithiol athrawon wrth herio dysgu’r disgyblion. Ar adegau, mae tueddiad gan staff i or-arwain sy’n cyfyngu ar allu disgyblion i ddysgu’n annibynnol a gwneud dewisiadau uniongyrchol am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n adeiladol ac yn raddol mewn gweithgareddau dysgu a thros gyfnod. Mae hyn yn arwain at gynnydd effeithiol ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Mae staff yn fodelau iaith cywrain ac maent yn hyrwyddo medrau llafar Cymraeg disgyblion yn llwyddiannus. Mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn gyfathrebwyr hyderus yn y ddwy iaith.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith teyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio, rhannu syniadau a chofleidio’u hapusrwydd yn frwd, sy’n datblygu eu parch at deimladau pobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy’n creu ymwybyddiaeth gadarn o’u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau arferion addysgu effeithiol a chyson, gan gynnwys darparu adborth bwriadus i herio'r holl ddisgyblion

A2. Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Tremeirchion yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae'n cydweithio'n ddiwyd â'r staff, y llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i ddarparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cyflwyno gweledigaeth glir a pherthnasol, sy'n seiliedig ar sicrhau gofal a dysgu cadarn i holl aelodau'r ysgol a'u cymuned.

Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu profiadau dysgu i wella lles disgyblion a sicrhau cynnydd graddol ac adeiladol yn eu medrau. Mae staff yn cyfrannu at y gweithgareddau hyn yn fwriadus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau wrth ganolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau monitro a chynllunio ar gyfer gwella yn agweddau cyson o'r broses hunanwerthuso.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant cefnogol ac ethos cadarnhaol i hybu a datblygu dysgu proffesiynol staff. Maent yn awyddus i fabwysiadu arferion effeithiol ar y cyd ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at allu'r ysgol i weithredu fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, dysgu a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau proffesiynol defnyddiol i ddatblygu'r cwricwlwm ymhellach, i werthuso eu harferion addysgu ac asesu ac i dreialu egwyddorion newydd i gefnogi a gwella deilliannau disgyblion.

Mae staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn cynnal disgwyliadau uchel ymysg disgyblion ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg, tra'n gwrando a siarad. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith. Mae staff yn annog disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd cyson a naturiol o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n ddigymell yn y Gymraeg, mewn gwahanol gyd-destunau, gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn drwyadl. O ganlyniad, mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n effeithiol. Mae disgyblion yn defnyddio'u marciau cynnar yn ddeallus, ac wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu da, ar y cyfan, yn y ddwy iaith ac mewn ystod o ffurfiau difyr.

Mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno ystod berthnasol o dasgau mathemateg sy'n cyfateb yn fuddiol i ddysgu'r disgyblion. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n addas, ac o ganlyniad, maent yn caffael ystod o fedrau rhifedd angenrheidiol. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn llwyddo i ddarparu cwricwlwm ysgogol sydd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am hanes Tryweryn a thrafod effaith hyn ar gymuned cefn gwlad trwy ofyn cwestiynau perthnasol. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus.

Mae'r perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn glòs a theyrngar ac maent yn gwrando'n ofalus a pharchus ar oedolion sy'n rhan annatod o'u hagweddau cadarn at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrechu'n ddiwyd a chydweithio'n dda â'u cyfoedion ac mae eu hymddygiad yn ardderchog. Maent yn dathlu eu gwaith a'u cynnydd yn frwdfrydig ac yn cyfrannu'n eiddgar at drafodaethau dosbarth.

Mae'r athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyriol. Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau rhediad da i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dysgu ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Er hyn, mae disgwyliadau uchel ac arferion addysgu athrawon yn anghyson, yn enwedig wrth ddarparu her i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i gyflawni'n llwyddiannus. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon bob tro'n herio disgyblion i wella'u gwaith a datblygu eu dealltwriaeth yn annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n ystyrlon i ddarparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Yn yr arferion addysgu a dysgu gorau, mae staff yn gwybod sut i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad ymysg disgyblion. Mewn ychydig o achlysuron, mae staff yn tueddu i or-arwain y gweithgareddau dysgu. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am sut i gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu diddorol i gymell brwdfrydedd a boddhad ymysg disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion yn ddeallus. Mae mannau tawel ar gael i ddisgyblion, pan fo angen, gan gynnwys y llyfrgell ac ardaloedd allanol deniadol. Maent yn cael eu defnyddio'n ddoeth gan staff i gefnogi lles disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei chydlynu’n gelfydd ac yn diwallu anghenion disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gadarn. Mae staff yn cydweithio’n gydwybodol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd da yn unol â’u targedau a’u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas effeithiol â rhieni. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu rheolaidd yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn grefftus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a’i chymuned yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal gweithdai gyda rhieni a’r disgyblion i rannu balchder y disgyblion yn eu gwaith, fel wrth ganu hwiangerddi ar y cyd. Mae hyn yn datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025